# Polisi a Gweithdrefn Apeliadau Academaidd APS

ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

**Tabl Rheoli Dogfen**

| | |
|---|---|
| **Teitl y ddogfen:** | **Polisi a Gweithdrefn Apeliadau Academaidd Athrofa Padarn Sant (APS)** |
| **Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):** | Gareth Longden, Cofrestrydd |
| **Rhif y fersiwn:** | Fersiwn 2.1 |
| **Statws y ddogfen:** | Cymeradwywyd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 22 Awst 2023 |
| **Cymeradwywyd gan:** | Bwrdd Academaidd Athrofa Padarn Sant |
| **Dyddiad rhoi mewn grym:** | Awst 2023 |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** | Mehefin 2025 |
| **Y fersiwn a ddisodlir:** | Fersiwn 2 |
| **Dogfennau cysylltiedig:** | Mae'r polisi hwn wedi ei ddatblygu yn unol â rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau canlynol. Nid yw'r rhestr yn un hollgynhwysol:<br><br>• Llawlyfrau Rhaglenni Athrofa Padarn Sant<br>• Llawlyfr Ansawdd Academaidd Prifysgol y Drindod Dewi Sant<br>• Llawlyfr Rheoliadau Academaidd Prifysgol Caerdydd<br>• Llawlyfr Dysgu ac Addysgu Prifysgol Durham |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Polisi Cymorth Dysgu Athrofa Padarn Sant<br>Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Athrofa Padarn Sant<br>• Polisi Diogelu Data Athrofa Padarn Sant<br>• Cod Ansawdd Addysg Uwch QAA DU- Cyngor a Chanllawiau: Pryderon, cwynion ac apeliadau | |
| **Hanes y ddogfen** | | | |
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Awdur** | **Nodiadau ar adolygiadau** |
| 2 | Mehefin 2022 | Gareth Longden | • Adolygu fel yr amserlen.<br>• Ymgorffori dysgwyr wedi eu cofrestru ar rhaglen MA o dan y Common Awards. |
| 2.1 | Gorffennaf 2023 | Gareth Longden | • Materion Fformatio<br>• I gynnwys linc i broses Gwynion ac Apeliadau Prifysgol Durham. |

# Gweithdrefn a Pholisi Apeliadau Academaidd Athrofa Padarn Sant

## 1. Cynnwys y Polisi


1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Egwyddorion y Polisi
4. Gwneud apêl am Farc Modiw
   - 4.1 Y Sail ar gyfer Gwneud Apêl
   - 4.2 Rhesymau na ellir eu Cyflwyno ar gyfer Apêl
   - 4.3 Proses ar gyfer gwneud apêl am Farc
5. Hysbysu am Ganlyniad yr apêl
6. Gwneud Apêl i Gyrff Allanol
7. Monitro Prosesau Apeliadau
8. Rheoliadau Eraill
9. Cyfrifoldebau, Cymeradwyo Polisi ac Adolygu

10. Cyhoeddi'r Polisi

## 2. Cyflwyniad

**2.1** Nod y broses Apeliadau Academaidd yw rhoi trefn i ddysgwyr ar gyfer apelio yn erbyn yr hyn y mae dysgwr yn ystyried yn weithdrefn annheg wrth asesu neu ynghylch penderfyniad gan gorff academaidd.

**2.2 Diffinnir apêl academaidd fel** *"Cais i adolygu penderfyniad a wnaed gan gorff academaidd sydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar gynnydd dysgwr, asesiadau a dyfarniad."*

**2.3** Ni chewch chi apelio ar sail eich bod yn anghytuno â barn academaidd y marciwr yn unig. **Ddiffinnir '*gwybodaeth broffesiynol ac ysgolheigaidd***, *ac arbenigedd y mae aelodau staff ac arholwyr allanol yn troi ato wrth wneud penderfyniad academaidd."* Mae materion o farn academaidd yn cynnwys; (ond heb fod yn gyfyngedig i) marciau rhoddwyd ar gyfer asesiadau neu fodiwlau unigol.

**2.4** Caiff Apeliadau Academaidd eu hymchwilio gan y brifysgol sy'n dilysu ac nid gan Athrofa Padarn Sant. Bydd Athrofa Padarn Sant yn eich cefnogi drwy'r broses apêl drwy ddarparu gwybodaeth gywir a chefnogaeth fugeiliol.

## 3. Egwyddorion y Polisi

**3.1** Ein nod yw ymateb i unrhyw ymholiad neu apêl yn gyfrinachol, yn deg ac yn brydlon yn unol â **Pholisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** yr Athrofa. Bydd staff yn ymdrechu i fod yn gwrtais wrth yr achwynydd, gan ymateb yn gadarnhaol a chynnig datrysiadau adeiladol lle bo modd.

**3.2** Rheolir yr holl apeliadau mewn modd sensitif gan roi sylw dyledus i faterion diogelu data. Er ein bod yn deall y gall achwynwyr ddymuno i rai agweddau ar eu tystiolaeth (e.e. datganiad tyst neu dystiolaeth feddygol) gael eu cadw'n gyfrinachol, ni fydd modd gwneud hyn bob tro heb atal ymchwiliad trylwyr o'r ffeithiau. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd yr Athrofa'n trafod gyda'r achwynydd y ffordd orau o fynd ati i gyflwyno tystiolaeth.

**3.3** Cynigir cefnogaeth i'r rhai sy'n rhan o'r ymchwiliad (parti) gan eu Tiwtor Personol. Gall parti ddewis cyfaill cefnogol i fynd gydag ef neu i'w gynrychioli mewn unrhyw gyfarfod hefyd. Rhaid i'r cydymaith hwnnw fod yn rhywun sy'n gwbl annibynnol ar yr amgylchiadau a achosodd y cyfarfod ac felly ni all fod yn rhywun sy'n rhoi

cymorth bugeiliol iddo yn ystod y broses.

**3.4** Cedwir cofnod manwl o'r holl ymchwiliadau, apeliadau neu adolygiadau ffurfiol.

**3.5** Ni ddylai'r gwaith o brosesu'r apêl ffurfiol ac unrhyw adolygiad dilynol gymryd **dim mwy na 30 diwrnod calendr.** (mewn achos lle bo'r dysgwr wedi ei gofrestru ar raglen ôl-radd gyda Common Awards, yr amserlen **ydy 42 diwrnod.**) Rhaid i'r dysgwr fodloni unrhyw ddyddiadau terfyn ar gyfer cyflwyno gwybodaeth.

**3.6** Gall apeliadau sy'n cynnwys mwy nag un mater, mewn rhai achosion olygu y bydd yn rhaid datrys un mater cyn mynd ymlaen i'r llall. Gall hyn ei gwneud yn ofynnol trafod gyda'r achwynydd pa ffordd yw'r un orau i ddatrys y sefyllfa gyfan yn foddhaol.

**3.7** Hysbysir yr achwynydd yn ysgrifenedig bob amser ynghylch canlyniad unrhyw ymchwiliad neu apêl ynghyd â'r rhesymau a roddwyd am y penderfyniad a wnaed. Hysbysir yr achwynydd ar yr un pryd ynghylch unrhyw brosesau apêl bellach a all fod yn agored iddynt eu cymryd.

**3.8** Bydd unrhyw adolygiad yn cael gwrandawiad gan rywun nad oedd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad gwreiddiol a bydd yn digwydd o fewn yr amserlen a nodwyd. Fe'ch hysbysir os rhagwelir y bydd unrhyw oedi na ellir ei osgoi.

**3.9** Ni fydd unrhyw un yn dioddef anfantais o wneud apêl.

**3.10** Gellir tynnu'r apêl yn ôl unrhyw bryd yn ddiamod ar unrhyw adeg yn ystod y broses. Rhaid hysbysu'r Athrofa yn ysgrifenedig.

**3.11 Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y broses Apelio Academaidd ar y dogfennau terfynol ar wefannau'r prifysgolion sy'n dilysu. Fe argymhellir yn gryf bod dysgwyr yn gwirio'r ddogfennaeth berthnasol.**

- Ar gyfer Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant gweler y Llawlyfr Ansawdd Academaidd
- Ar gyfer Prifysgol Caerdydd, gweler Llawlyfr Rheoliadau Academaidd

Ar gyfer Prifysgol Durham gweler:
https://www.durham.ac.uk/departments/academic/common-awards/students/complaints-appeals

## 4. Gwneud Apêl am ganlyniad asesiad

### 4.1 Y Sail ar gyfer Gwneud Apêl

Gallwch apelio ar y sail ganlynol **yn unig:**

**4.1.1** Bod gwall rhifyddeg neu ffeithiol arall yn y canlyniadau a gyhoeddwyd.

**4.1.2** Bod y corff gwneud penderfyniadau heb gymryd y camau priodol i weithredu penderfyniad Amgylchiadau Esgusodol (Anffafriol) neu fod corff gwneud penderfyniadau yn anymwybodol o amgylchiadau esgusodol (Anffafriol) a effeithiodd yn andwyol ar berfformiad y dysgwr (a bod tystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau diymwad pam nad oedd y corff gwneud penderfyniadau wedi cael eu hysbysu ynghylch yr amgylchiadau hynny ar adeg briodol).

**4.1.3** Bod diffygion neu anghysondebau yn y dasg asesu neu mewn cyngor ysgrifenedig cysylltiedig â'r dasg asesu a oedd o'r fath natur fel bod posibilrwydd rhesymol y gallai'r canlyniad fod yn wahanol pe na baent wedi digwydd.

**4.1.4** Ni ellir cyflwyno apeliadau a wneir ar unrhyw sail ac eithrio'r rhai a restrir uchod (yn cynnwys y rhai sy'n cwestiynu barn academaidd y marciwr).

### 4.2 Rhesymau na ellir eu Cyflwyno ar gyfer Apêl

**4.2.1** Ni ellir apelio yn erbyn marc modiwl dim ond am eich bod yn anghytuno â'r marc a ddyfarnwyd (*sail academaidd*).

**4.2.2** Ni ellir apelio ar y sail nad ydych yn ymwybodol o'r rheoliadau asesu cyhoeddedig (e.e. nifer y geiriau, dyddiad cyflwyno terfynol, ac ati).

**4.2.3** Os ydych chi'n anghytuno â'r canlyniadau y daeth y pwyllgor iddynt ar ôl ystyried eich datganiad o amgylchiadau esgusodol (Anffafriol).

### 4.3 Proses ar gyfer gwneud apêl am Farc

Cyn i chi apelio i'r brifysgol fe'ch cynghorir yn gryf i drafod y mater gyda Chyfarwyddwr Gweithrediadau Athrofa Padarn Sant. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau neu rywun a enwebir ganddo yn eich hysbysu ynghylch y ffurflenni cywir ac yn rhoi gwybod i chi am y broses o wneud apêl i'r brifysgol ddilysu briodol.

- Dylid cyflwyno apeliadau i **Brifysgol Caerdydd** o fewn **28 diwrnod calendr** o gael eich hysbysu am y marc neu o bryd gwnaed y penderfyniad.
- Dylid cyflwyno apeliadau i **Brifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant** o fewn **15 diwrnod gwaith** o gael eich hysbysu am y marc neu o bryd gwnaed y penderfyniad
- Dylid cyflwyno apeliadau I **Brifysgol Durham** o fewn **28 diwrnod calendr** o'r hysbysiad o farc neu o bryd gwnaed y penderfyniad.

Ystyrir apeliadau a ddaw i law ar ôl y dyddiadau terfyn uchod fel rhai hwyr, ac ni ellir eu hystyried oni bai bod tystiolaeth annibynnol yn dangos rhesymau diymwad pam na chyflwynwyd yr apêl mewn pryd.

## 5. Hysbysu am Ganlyniad yr Apêl

Bydd y brifysgol yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r achwynydd am ganlyniad yr apêl.

Ar ôl derbyn **Llythyr Canlyniad yr Apêl**, os nad ydych yn fodlon â'r penderfyniad neu'r datrysiad, gall fod sail i gyflwyno apêl bellach i'r brifysgol i'r penderfyniad gael ei adolygu.

## 6. Gwneud Apêl i Gyrff Allanol

**6.1** Fel rheol, dim ond os yw prifysgol heb ddilyn ei gweithdrefn ei hun yn briodol neu heb ymdrin â'r apêl yn deg y gellir gwneud apêl i gorff allanol.

**6.2** Dim ond ar ôl defnyddio'r holl weithdrefnau apêl ac adolygu mewnol y gellir gwneud apêl i gorff allanol yn arferol.

### 6.3 Gwneud Apêl i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol:

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (OIA) yn rhedeg cynllun i adolygu cwynion myfyrwyr. Mae Athrofa Padarn Sant yn aelod o'r cynllun hwn. Os ydych yn parhau i deimlo'n anhapus gyda chanlyniad yr apêl, mae modd gofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (OIA) adolygu eich achos. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am wneud cwyn i'r OIA, beth allan nhw ymchwilio a beth allant wneud i ddatrys y mater fan yn: https://www.oiahe.org.uk/students/

Fel arfer bydd rhaid eich bod wedi cwblhau'r weithdrefn Apeliadau Academaidd cyn gallwch roi cwyn mewn i'r OIA. Byddwn ni yn danfon llythyr caiff ei alw'n **'Llythyr Cwblhau Gweithdrefn'** pan fyddwch chi wedi cyrraedd diwedd ein prosesau, phan fo dim mwy o gamau y gallwch ei wneud yn fewnol. Os nad yw eich achos yn cael ei gynnal byddwn yn darparu 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' i chi yn awtomatig. Os ydy eich achos wedi ei gynnal neu wedi ei gynnal yn rhannol gallwch holi am 'lythyr Cwblhau Gweithdrefn' os ydych chi'n dymuno cael un. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am Lythyron Cwblhau Gweithdrefnau a phryd ddylech ddisgwyl derbyn un yn: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters/

## 7. Monitro Prosesau Apeliadau

Trafodir materion a chanlyniadau unrhyw apêl yn yr Athrofa i fonitro a sicrhau effeithiolrwydd yr apêl, ansawdd y profiad dysgu, a mater hyder yn y prosesau apêl.

## 8. Rheoliadau Eraill

**8.1** Ystyrir apeliadau academaidd yn ddiduedd. Mae'r Athrofa'n ymdrechu i sicrhau nad yw dysgwyr yn destun gwahaniaethu anghyfreithlon yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn unol â **Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** yr Athrofa ei hun. Credwn fod amrywiaeth yn gyfraniad cadarnhaol i'r profiad dysgu ym Mhadarn Sant.

**8.2** Cedwir cofnodion o unrhyw broses apêl yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gweler y manylion yn y **Polisi Diogelu Data** ar wefan yr Athrofa: www.stpadarns.ac.uk a'r VLE. Yn unol â thelerau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae gan ddysgwyr hawl i gopi o'r holl ddata personol sydd gennym ni amdanyn nhw. Dylid cyflwyno pob cais i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

## 9. Cyfrifoldebau, Cymeradwyo Polisi ac Adolygu

Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sy'n gyffredinol gyfrifol am y polisi apeliadau academaidd.

## 10. Cyhoeddi'r Polisi

**10.1** Gwelir y ddogfen hon ar wefan Athrofa Padarn Sant www.stpadarns.ac.uk ac ym maes y dysgwr ar Moodle.

**10.2** Gwneir pob ymdrech i ymateb i unrhyw gais am ddarparu'r polisi hwn mewn fformat gwahanol.

**10.3** Bydd y polisi hwn yn rhan o weithdrefn sefydlu staff a dysgwyr.